

# CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 15 MEDI 2021

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd J.E. Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

L.R. Bowen	K.V. Broom	C.A. Campbell	J.M. Charles
D.M. Cundy	C.A. Davies	W.R.A. Davies	T.A.J. Davies
G. Davies	H.L. Davies	I.W. Davies	J.A. Davies
K.Davies	S.L. Davies	E. Dole	D.C. Evans
H.A.L. Evans	L.D. Evans	R.E. Evans	W.T. Evans
S.J.G. Gilasbey	C.J. Harris	P. Hughes-Griffiths	A.D. Harries
T.M. Higgins	J.K. Howell	P.M. Hughes	J.D. James
R. James	D.M. Jenkins	J.P. Jenkins	G.H. John
C. Jones	B.W. Jones	D. Jones	G.R. Jones
H.I. Jones	A. Lenny	M.J.A. Lewis	K. Lloyd
K. Madge	A.S.J. McPherson	E. Morgan	A.G. Morgan
D. Nicholas	B.D.J. Phillips	J.S. Phillips	D. Price
J.G. Prosser	B.A.L. Roberts	H.B. Shepardson	E.M.J.G. Schiavone
A.D.T. Speake	L.M. Stephens	B. Thomas	D. Thomas
G. Thomas	J. Tremlett	A.Vaughan Owen	D.T. Williams
D.E. Williams			

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

W. Walters, Prif Weithredwr  
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau  
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol  
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith  
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant  
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd  
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)  
H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael  
N. Daniel, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cynllunio  
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd  
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd  
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol  
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol  
C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digidol  
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 12.20 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr F. Akhtar, S.M. Allen, J.S. Edmunds, P. Edwards, A. Fox, A. James, T.J. Jones, S. Matthews, S. Najmi, E.G. Thomas a G.B. Thomas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd/ Swyddog	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd K. Madge	6.1	Ei ferch yn gweithio yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol.
R. Mullen	5	Cyfarwyddwr Cwm Environmental Ltd

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Aeth y Cadeirydd ati i longyfarch D. A. Jones, Derwen Fawr a'i wraig Eluned a oedd wedi dathlu eu pen-blwydd priodas ddiemwnt yn ddiweddar.
- Nododd y Cadeirydd ei fod wedi mynd i nifer o ddigwyddiadau yn ddiweddar gan gynnwys gwasanaeth coffa ym Mhorth Tywyn, Taith Prydain yn Ysgol Bro Dinefwr a hefyd seremoni dadorchuddio mainc er cof am y diweddar D.T. Davies yn Llandeilo.
- Dymunodd y Cadeirydd ben-blwydd hapus i Marjorie Ferguson o Llandeilo yn 100 oed.
- Mynegodd y Cadeirydd hefyd ei longyfarchiadau i'r Cynghorydd Alan Speake a'i wraig Stephanie a oedd wedi dathlu eu pen-blwydd priodas aur yn ddiweddar.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion trist am farwolaeth Ken Evans (cynweithiwr y Cyngor), ac ar ran y Cyngor, mynegodd ei gydymdeimlad â'i wraig Lynette a'r teulu.
- Gyda chaniatâd y Cadeirydd, rhoddodd y Cynghorydd Jane Tremlett wybod bod y Cyngor a Llesiant Delta wedi derbyn gwobr ar y cyd am y Rhaglen Connect yng Ngwobrau Trawsnewid y Sector Cyhoeddus a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf yn Llundain.  
Wrth roi gwybod am yr uchod, roedd y Cynghorydd Tremlett am ddiolch yn ddiffuant i'r holl staff am eu gwaith caled.
- Rhoddodd yr Arweinydd, gyda chaniatâd y Cadeirydd, y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa o ran Covid yn Sir Gaerfyrddin. Mynegodd ei bryder ynglŷn â'r ffigurau diweddar er bod arwyddion cynnar bod cyfradd y cynnydd mewn achosion yn arafu. Roedd hefyd yn annog pawb i gael y brechlyn ac yn rhoi sicrwydd bod popeth yn cael ei wneud i ddiogelu'r GIG. Mynegwyd pryder bod y tîm TTP wedi adrodd ei fod wedi gweld pobl yn

ymddieithrio o'r broses a gofynnodd i ni i gyd barhau i weithio gyda'r tîm TTP. Mynegodd ei ddiolch i bawb sy'n ymwneud â'r broses Profi, Orlhain a Diogelu.

#### **4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR 14EG GORFFENNAF, 2021**

**PENDERFYNWYD** llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021 yn gofnod cywir.

#### **5. CWM ENVIRONMENTAL LTD - GOFYNIAD ARIANNU TYMOR BYR**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau yr adroddiad a'i bwrpas oedd sefydlu mynediad tymor byr at gyllid ar gyfer CWM Environmental Ltd i dalu costau untro a chostau rhedeg ychwanegol yn dilyn y tân yn y Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau ar 24 Ebrill 2021 hyd nes y daw'r hawliadau yswiriant perthnasol i law.

Bu digwyddiad tân mawr ar safle Cwm Environmental Ltd yn Nantycaws ar 24 Ebrill 2021 a arweiniodd at gollir adeilad ailgylchu deunyddiau bagiau glas a'i gynnwys yn llwyr. Cafodd cynllun tân ac argyfwng y cwmni ei roi ar waith, ac roedd staff CWM yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân i reoli'r tân, gan leihau effaith y tân ar yr amgylchedd.

Mae CWM yn parhau i weithio gydag aseswr colledion ei gwmni yswiriant ac mae wedi bod yn darparu ymatebion a thystiolaeth ategol i'r cwestiynau a godwyd hyd yn hyn. Nid oedd yn anarferol i'r broses derbyn atebolrwydd yn ffurfiol gymryd nifer o wythnosau (yn amodol ar ymchwiliadau amrywiol) ond ar ôl cytuno nad oedd unrhyw rwystrau i dderbyn atebolrwydd o ran polisi, gellid wedyn canolbwyntio ar yr hawliad ei hun.

Dywedwyd bod CWM yn wynebu sefyllfa lle bydd yn rhaid talu costau cyn unrhyw setliadau yswiriant megis:

- Cost ymateb ar unwaith i'r tân
- Cost dymchwel
- Costau gweithredu uwch

Ystyriwyd felly bod angen hwyluso cyfleuster benthycia i CWM Environmental Ltd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** gytuno ar gyfleuster cyllido fel a ganlyn:

- 5.1 Swm y benthyciad - hyd at £1,000,000 am gyfnod o 12 mis;**
- 5.2 Cyfradd y llog : 2% yn uwch na'r gyfradd a bennwyd gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer benthyciad 12 mis;**
- 5.3 Y broses o ryddhau'r cyllid yn cael ei dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'w weinyddu fel a ganlyn:**
  - a) Rhyddhau cyllid dim ond pan fydd tystiolaeth o wariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r tân.**

**b) Bydd yr elfennau terfynol ynghylch y cytundeb benthyciad manwl yn cael eu dirprwyo i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.**

**6. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-**

**6.1. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Rhodddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf (gweler cofnod 7), wedi ystyried Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Perfformiad y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin 2020/21 yn cael ei gymeradwyo.**

**7. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWDYD AR Y 26AIN GORFFENNAF, 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021.**

**8. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-**

**8.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD DERYK CUNDY**

Ystyriodd y Cyngor y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cyngorydd Deryk. Cundy:-

Rydym yn cynnig bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cytuno â'r canlynol:

Er mwyn atal yr ôl-groniad difrifol o geisiadau cynllunio a materion gorfodi a ddaw yn y dyfodol ac i sicrhau bod y Gwasanaeth Cynllunio yn addas i'r diben ac er mwyn atal y risg gydnabyddedig i'n cynlluniau Adfywio, ein bod yn:

1. Cryfhau ein Prosesau Craffu a Rheoli Risg, ein Gweithdrefnau ac Adroddiadau drwy weithredu'n llawn argymhellion yr adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru "Adolygiad o Drefniadau Rheoli Risg – Cyngor Sir Caerfyrddin – Gorffennaf 2019" ac "Adolygiad o'r Gwasanaethau Cynllunio – Cyngor Sir Caerfyrddin – Gorffennaf 2021".
2. Bod yr adroddiad mewnol i'r Adran Gynllunio, "Adolygiad Strategol o'r Gwasanaeth Cynllunio" ar gael i bob Cyngorydd graffu arno a hynny cyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 24 Medi.
3. Bod Cynllun i ddatrys yr ôl-groniad presennol o'r cannoedd lawer o geisiadau cynllunio a hyd yn oed mwy o faterion gorfodi, yn ogystal â sicrhau bod Gwasanaeth yr Adran Gynllunio yn addas i'r diben i'n galluogi i gyrraedd ein

- targedau Adfywio mewn modd amserol, yn cael ei gyflwyno i'r Siambr hon gan y Pennaeth Cynllunio Dros Dro yn ystod ein cyfarfod nesaf o'r Cyngor Sir.
4. Bod yr arfer o ddefnyddio cwmnïau preifat i glirio'r ôl-groniad o geisiadau cynllunio yn dod i ben ac yn cael ei gyflawni yn fewnol.
  5. Bod cyllideb ddigonol yn cael ei gosod ar gyfer unrhyw newid sydd ei angen i'r Adran Gynllunio ddarparu gwasanaethau effeithiol a chynaliadwy.
  6. Galw ar Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio i gyhoeddi adroddiad misol sy'n nodi'r sefyllfa bresennol o ran ceisiadau cynllunio sy'n aros am benderfyniad a materion gorfodi.

Eiliwyd y Cynnig.

Rhodddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau o blaid ac yn erbyn y Cynnig.

Dywedwyd wrth y Cyngor, os byddai'r cynnig yn cael ei gefnogi, byddai'r mater yn cael ei gyfeirio i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD peidio â chefnogi'r Rhybudd o Gynnig.**

## **8.2. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES**

Ystyriodd y Cyngor y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cyngorydd Glynog Davies:-

"Mae'r Cyngor yn nodi bod amrywiolyn Delta o SARS-CoV-2 yn heintio plant a phobl ifanc ar gyfradd ddigynsail, ac eto mae ysgolion yng Nghymru wedi ailagor heb roi unrhyw ddulliau adferol ar waith i amddiffyn disgyblion a staff.

Gan ei fod yn feirws sy'n cael ei drosglwyddo yn yr aer, mae awyru ac aer glân yn allweddol yn y frwydr yn erbyn SARS-CoV-2, fel y cydnabyddir yn y *Joint Union Guide to Improving Ventilation in Schools and Colleges* (Medi 2021) a strategaeth Llywodraeth Cymru i ddarparu offer monitro CO2. Fodd bynnag, nid yw offer monitro yn ateb y broblem o ran awyru gwael: yn syml maent yn nodi bod problem ac y dylid cymryd camau adferol.

Mae'r cyngor hwn yn nodi bod y dechnoleg osôn a gynigir gan Lywodraeth Cymru, y dyrannwyd £3.3m o gyllid ar ei gyfer, wedi cael ei gohirio yn dilyn pryderon am ddiogelwch gan arbenigwyr meddygol. Nodwn hefyd gyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mai'r offer mwyaf addas i'w ddefnyddio mewn ystafelloedd ag awyru gwael yw:

- Hidlenni Aer Gronynnol Effeithlon Iawn (HEPA) sy'n 99.97% effeithlon o ran dal gronnau feirysol a gynhyrchir gan bobl sy'n gysylltiedig â SARS-CoV-2 (*Centres for Disease Control and Prevention; Ventilation in Buildings; diweddarwyd 2 Mehefin 2021.*) a:
- Dyfeisiau uwchfioled

Felly, mae'r cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried ar frys gymeradwyo, tendro ac ariannu unedau UV-C a/neu unedau HEPA, fel yr argymhellwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a sydd wedi'u dilysu fel rhai priodol a diogel i'w defnyddio gan Sefydliad Iechyd y Byd, y Lancet ac awdurdodau meddygol a chyhoeddiadau blaenllaw eraill”

Eiliwyd y Cynnig.

Rhodddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Cynigiwyd y gwelliant canlynol i'r cynnig gan y Cynghorydd R. James a chafodd ei eilio:

Mae'r Cyngor yn nodi bod amrywiolyn Delta o SARS-CoV-2 yn heintio plant a phobl ifanc ar gyfradd ddigynsail.

Gan ei fod yn feirws sy'n cael ei drosglwyddo yn yr aer, mae awyru ac aer glân yn allweddol yn y frwydr yn erbyn SARS-CoV-2, fel y cydnabyddir yn y Joint Union Guide to Improving Ventilation in Schools and Colleges (Medi 2021) a strategaeth Llywodraeth Cymru i ddarparu offer monitro CO2. Fodd bynnag, nid yw offer monitro yn ateb y broblem o ran awyru gwael: yn syml maent yn nodi bod problem ac y dylid cymryd camau adferol.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi y bydd Grŵp Ymgynghorol Technegol Llywodraeth Cymru bellach yn ystyried canlyniadau treialon cynnar y peiriannau hyn ac yn rhoi cyngor pellach ar eu defnydd mewn lleoliadau addysg cyn i unrhyw broses gaffael ddechrau. Nodwn hefyd gyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mai'r offer mwyaf addas i'w ddefnyddio mewn ystafelloedd ag awyru gwael yw:

- Hidlenni Aer Gronynnol Effeithlon Iawn (HEPA) sy'n 99.97% effeithlon o ran dal gronnau feiryol a gynhyrchir gan bobl sy'n gysylltiedig â SARS-CoV-2 (*Centres for Disease Control and Prevention; Ventilation in Buildings; diweddarwyd 2 Mehefin 2021.*) a:
- Dyfeisiau uwchfioled.

Felly, mae'r cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried ar frys asesu'r posibilrwydd o ddefnyddio unedau UV-C a/neu unedau HEPA, fel yr argymhellwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a sydd wedi'u dilysu fel rhai priodol a diogel i'w defnyddio gan Sefydliad Iechyd y Byd, y Lancet ac awdurdodau meddygol a chyhoeddiadau blaenllaw eraill, gan nodi bod angen gwneud gwaith i ddiogelu ein stoc helaeth o ysgolion a diogelu ysgolion sydd eisoes dan bwysau rhag pwysau ariannol nad oedd modd ei ragweld. ”

Rhodddwyd cyfle i Gynigydd ac Eilydd y Gwelliant siarad o'i blaid a rhoesant amlinelliad o'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Gwelliant.

Gwnaed nifer o ddatganiadau a gefnogai'r Cynnig a'r Gwelliant.

Yn dilyn pleidlais

## **PENDERFYNWYD peidio â chefnogi'r Gwelliant i'r Cynnig.**

Fe aeth Y Cyngor ymlaen i bleidleisio ar y Cynnig gwreiddiol a fe

## **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig a'i gyfeirio i'r Cabinet.**

### **8.3. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD TINA HIGGINS**

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cyngorydd Tina Higgins:-

“Mae llawer o drigolion y sir wedi sylwi ar ddyfodiad pobl ifanc sydd nid yn unig yn gyrru'n wyllt ar hyd strydoedd Sir Gaerfyrddin, ond sydd hefyd â cheir â phibellau gwacáu sy'n popio neu greu sŵn uchel iawn. Mae'r broblem yn fater aml-asiantaeth, nid yn fater i'r heddlu ei ddatrys yn unig.

Ers 2019, mae'r Adran Drafnidiaeth wedi bod yn treialu camerâu mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae'r camerâu'n gweithio'n debyg iawn i gamera cyflymder arferol ond yn hytrach na chyfrifo cyflymder, maent yn defnyddio meicroffon i nodi faint o sŵn sy'n dod o gerbyd. Os bydd sŵn car yn rhy uchel, bydd yn sbarduno'r camera i dynnu llun a bydd system adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig (ANPR) yn nodi'r rhif cofrestru ac yn sicrhau bod cosb yn cael ei hanfon i gyfeiriad cofrestredig perchennog y car sydd wedi troseddu.

Rydym yn cynnig bod Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ymchwilio i'r posibilrwydd o osod camerâu acwstig yn yr ardaloedd lle mae'r problemau hyn yn Sir Gaerfyrddin.”

Eiliwyd y Cynnig.

Rhodddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

Dywedwyd wrth y Cyngor, os byddai'r cynnig yn cael ei gefnogi, byddai'r mater yn cael ei gyfeirio i'r Cabinet.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gefnogi'r Rhybudd o Gynnig a'i gyfeirio i'r Cabinet.**

### **9. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

### **10. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-**

#### **10.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD DAI THOMAS I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR**

"Ym mis Awst cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ar Adran Gynllunio'r Cyngor Sir. All yr Arweinydd amlinellu gwaith y weinyddiaeth hon mewn perthynas â'r ymateb i gynnwys yr adroddiad?"

### **Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:-**

Diolch ichi am eich cwestiwn Gyngorydd Thomas. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i egluro'r sefyllfa a chywiro rhywfaint o'r wybodaeth anghywir a rannwyd yn y drafodaeth flaenorol ynghylch perfformiad yr adran gynllunio. Roedd gwybodaeth anghywir yn y crynodeb, yn honni nad oedd gennym gynllun ar waith hyd yn hyn. I egluro, byddaf yn rhoi llinell amser o'r digwyddiadau i chi. Daeth adborth anffurfiol gan Archwiliad Cymru i'r Prif Weithredwr ddiwedd mis Ebrill ac ar unwaith gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol sefydlu bwrdd ymyrraeth. Sefydlwyd y bwrdd ymyrraeth hwn wedyn ar 10 Mai ac mae'n adrodd i'r bwrdd sicrhau ymyrraeth sydd dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr.

Yna anfonodd Archwilio Cymru ei adroddiad drafft at y Prif Weithredwr ar 14 Mehefin a sefydlwyd yr Hwb Cynllunio wythnos yn ddiweddarach ar 21 Mehefin i ymdrin â phob galwad i Reolwyr Datblygu i ddechrau ond mae bellach yn derbyn galwadau ynghylch gorfodi rheolau cynllunio. Derbyniodd rhag-gyfarfod y cabinet adroddiad cynnydd rhagarweiniol ar 24 Mehefin. Anfonodd Archwilio Cymru ei adroddiad terfynol at y Prif Weithredwr ar 13 Gorffennaf a derbyniodd pob aelod o staff yng ngwasanaeth yr adran gynllunio gopi o'r adroddiad ar 21 Gorffennaf. Derbyniodd y Cabinet yr ail adroddiad cynnydd ar 26 Gorffennaf a derbyniodd Archwilio Cymru ein cynllun gweithredu ffurfiol mewn ymateb i'r 17 argymhelliad ar 30 Gorffennaf. Derbyniodd y Pwyllgor Cynllunio ddiweddariad ar lafar ar y cynnydd ar 19 Awst a disgwylir i'r adroddiad cynnydd nesaf gael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 20 Medi. Gobeithio bod y llinell amser yn rhoi rhywfaint o eglurder ynghylch yr hyn yr ydym eisoes wedi'i glywed y bore yma.

Dyma'r union beth a ddywedir yng nghrynodeb Archwilio Cymru o'i ganfyddiadau: "mae angen mynd i'r afael ar frys â materion arwyddocaol a hirsefydlog o ran perfformiad yn y gwasanaeth cynllunio i helpu i wireddu uchelgeisiau'r Cyngor". Mae Archwilio Cymru yn dweud ei fod wedi dod i'r casgliad hwnnw oherwydd bod angen cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio mawr i'n helpu i wireddu ein huchelgeisiau adfywio. Roedd y materion hirsefydlog o ran perfformiad ym maes rheoli datblygu a gorfodi cynllunio yn tanseilio'r gallu i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ac mae angen i ni adolygu ein trefniadau gwella gwasanaeth a pherfformiad cynllunio ar frys er mwyn gwasanaethu ein cwsmeriaid yn well.

Rwy'n falch iawn bod y Cyngorydd Thomas wedi gofyn y cwestiwn ac i allu rhannu'r llinell amser honno er mwyn rhoi eglurder a'r gwir am ein hymateb i adroddiad Archwilio Cymru.

### **Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Dai Thomas:**

A allai'r Arweinydd roi manylion pellach am yr argymhellion a sut mae'r Cyngor yn parhau i wella.

### **Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:-**



Mae gennym gamau gweithredu ar waith yn erbyn pob un o'r 17 argymhelliad a wnaed gan Archwilio Cymru. Mae dangosfyrddau rheoli perfformiad manwl wedi'u creu o fewn Arcus Global sef y system ddigidol a ddefnyddir o fewn y gwasanaeth. Mae perfformiad y gwasanaeth bellach yn cael ei fonitro'n gadarn gan y Pennaeth Cynllunio dros Dro ac Uwch-reolwyr. Mae hynny'n cael ei adrodd i'r bwrdd sicrhau ymyrraeth ar hyn o bryd a bydd yn rhan allweddol o'r adroddiadau monitro perfformiad chwarterol yn y dyfodol y soniodd y Cynghorydd Alun Lenny amdanynt yn gynharach a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Cynllunio.

O ran prosiectau mawr, rydym wedi sefydlu tîm prosiectau mawr a arweinir gan Stuart Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd a chafodd hwnnw ei sefydlu ar 1 Gorffennaf. Mae'r tîm hwn wedi nodi ceisiadau cynllunio a gafodd eu hystyried i ddechrau fel prosiectau mawr ac mae 48 o geisiadau wedi'u cymeradwyo ers hynny. O blith y rhain, nododd 33 ohonynt 212 o swyddi llawn amser newydd a 65 o swyddi rhan-amser newydd, yn ogystal â diogelu 300 o swyddi sy'n cynnwys 120 yn Llanelli. Mae protocol prosiectau mawr newydd wedi'i ddrafftio a bydd hwnnw'n cael ei baratoi ar gyfer y tîm cyflawni adfywio ar 29 Medi cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ym mis Hydref ar ôl y Tîm Rheoli Adrannol.

O ran rheoli datblygu a cheisiadau cynllunio, nododd Archwilio Cymru fod 847 o geisiadau cynllunio heb eu penderfynu ar 15 Mawrth. O 13 Medi ymlaen, mae 607 o geisiadau heb eu penderfynu ac mae 292 ohonynt yn dal i fod o fewn y targed o 8 wythnos ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Bellach, mae 384 o geisiadau cynllunio sy'n aros am benderfyniad ac sydd y tu allan i'r ffenestr darged o 8 wythnos felly ers 15 Mawrth pan nododd Archwilio Cymru fod 847 o geisiadau, mae'r nifer hwnnw bellach yn 384. Dyna'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn y 18 wythnos ers hynny. Ar 15 Mawrth, pan gyflwynwyd ffigurau i Archwilio Cymru, roedd 118 o geisiadau cynllunio yn dyddio'n ôl dros 5 mlynedd, a bellach 24 o geisiadau sydd. Dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru yw'r prif darged perfformiad ar gyfer ceisiadau cynllunio, sy'n adrodd ym mhob adroddiad perfformiad chwarterol; ers sefydlu'r bwrdd ymyrraeth rydym wedi gweld gwelliant sylweddol mewn perfformiad o fis i fis o ran penderfynu ar y ceisiadau cynllunio hynny. Er enghraifft, 47% oedd canlyniadau chwarter 4 yn 2021, yn adroddiad chwarter 1 2021/22 y canlyniad oedd 72% felly mae'r gwelliant yn glir i'w weld dros y 18 wythnos a'r amcanestyniad presennol ar gyfer chwarter 2 yw 82%.

O ran rheoli datblygu a gorfodi rheolau cynllunio, nodwyd 761 o achosion gorfodi rheolau cynllunio ac fel y mae'r Cynghorydd Philip Hughes eisoes wedi sôn, bydd y gwaith hwnnw yn cael ei gyfeirio ato ef fel yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y protocol newydd ar gyfer cau ceisiadau. Nid wyf yn mynd i'w ragweld ond mae hynny'n mynd i'r afael â'r dadansoddiad rydym wedi'i wneud wrth i ni ymateb i Archwilio Cymru. Roedd 139 o achosion dienw, 126 a gyflwynwyd gan staff y cyngor a 53 a oedd wedi'u cofnodi gan aelodau etholedig. Ni chafodd y polisi gorfodi rheolau cynllunio erioed ei fabwysiadu na'i weithredu'n ffurfiol ac mae hynny wedi arwain at ddiffyg eglurder ar beth yw achos gorfodi rheolau cynllunio. Mae polisi diwygiedig o ran gorfodi rheolau cynllunio wedi'i ddrafftio ac ymgynghorir arno ag aelodau etholedig ac aelodau'r gwasanaeth cynllunio mewn seminar ar 27 Medi ac yna gyda'r cyhoedd cyn iddo gael ei gwblhau a'i fod yn destun y broses wleidyddol i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cabinet. Dylai hynny

roi'r eglurder sy'n ofynnol i reoli disgwyliadau o ran y swyddogaeth gorfodi rheolau cynllunio.

Sefydlwyd yr hwb cynllunio ar 21 Mehefin gan fod y staff yn dweud eu bod yn treulio 50% o'u hamser yn ymdrin ag ymholiadau drwy alwadau ffôn neu e-byst. Heb amheuaeth dyma'r ymyriad mwyaf a wnaed ac mae'r perfformiad yn adlewyrchu effaith yr ymyriad hwnnw. Yr adborth gan y staff oedd y gallai gymryd oriau weithiau i ymdrin ag ymholiadau gan arwain at gynnydd sylweddol mewn llwyth gwaith. Mae'r hwb bellach yn caniatáu i ni nodi'r ymholiadau hynny a hefyd sicrhau bod aelodau'n cael ymatebion amserol i'w hymholiadau. Bydd yr Aelodau'n chwarae rhan hollbwysig yn y misoedd nesaf o ran trawsnewid y gwasanaeth cynllunio. Ers 21 Mehefin, mae 2,311 o ymholiadau wedi'u cofnodi gan yr hwb y mae 2,200 ohonynt wedi'u cau a'u trin ac mae hynny'n cynnwys bron i 200 o ymholiadau gan aelodau etholedig.

Rwy'n fwy na pharod i ryddhau'r adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gennym, fel y gall aelodau ei weld os dymunant. Er gwybodaeth i gloi, y tanwariant arfaethedig fel y mae heddiw ar gyfer yr adran gynllunio yw £102,000 ar gyfer 2021/22.

## **11. CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU**

### **11.1. BOD Y GRŴP ANNIBYNNOL WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD ARWEL DAVIES I GYMRYD LLE'R CYNGHORYDD ANTHONY DAVIES AR Y PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2(2)(n), roedd yr enwebiad canlynol wedi dod i law gan y Grŵp Annibynnol a:

**PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo enwebiad y Cynghorydd Arwel Davies i gymryd lle'r Cynghorydd Anthony Davies fel un o gynrychiolwyr y Grŵp Annibynnol ar y Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau.**

## **12. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar agenda 12.1 – 12.13 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**